**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

5 Chwefror 2024

Annwyl Paul,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 erbyn 5 Mawrth.

Derbyniais lythyr gan Is-iarll Younger o Leckie, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Waith a Phensiynau yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol (EU) Rhif 528/2012 Prydain Fawr (GB BPR) (addasu i gynnydd gwyddonol a thechnegol).

Rhaid i gynhyrchion bioleiddiadol gael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gweithredu fel yr awdurdod cymwys ar ran Gweinidogion Cymru.
Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynnig cyflwyno diweddariadau technegol i Atodiadau II a III o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr a fydd yn galluogi:

- Gostyngiad mewn profi ar anifeiliaid
- Alinio â chanllawiau cyfredol a phrofion wedi eu dilysu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i sicrhau bod cynnydd gwyddonol yn cael ei fonitro a bod datblygiadau'n cael eu hadlewyrchu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fydd y gostyngiad arfaethedig mewn profi ar anifeiliaid yn lleihau ansawdd y profion na diogelwch cynhyrchion, gan fod profion dibynadwy ar gael bellach, nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid, i ddarparu gwybodaeth a oedd ond ar gael yn flaenorol trwy brofi ar anifeiliaid byw. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac mae i'w osod gerbron Senedd y DU ar 5 Mawrth 2024, gyda dyddiad cychwyn o 6 Ebrill 2024.

Dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae deddfwriaeth bresennol yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ond mae gofyniad am gydsyniad, ac er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Felly nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.
Mae Llywodraeth Cymru yn aelodau craidd o'r Bwrdd Cyflawni Bioladdwyr (BDB) sy'n rhan o'r strwythurau llywodraethu ar gyfer Fframwaith Cyffredin Cemegau a Phlaladdwyr. Mae'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig wedi cael eu trafod a'u cymeradwyo gan y BDB.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau i'r Rhaglen Lywodraethu. Mae awdurdodi cynhyrchion bioladdol yn cefnogi llawer o nodau llesiant gan gynnwys "Cymru iachach" a 'Cymru gydnerth' ynghyd ag effeithiau cysylltiedig ar y nod o "Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang" lle mae cynhyrchion sy'n niweidiol i fywyd dynol neu annynol yn cael eu rheoleiddio'n iawn. Rwyf hefyd yn falch o weld y defnydd arfaethedig o dechnoleg ar gyfer profi cynhyrchion bioleiddiadol, sy'n lleihau'r angen am brofi ar anifeiliaid.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**